# CEI CONNAH

**CYNLLUN GWEITHREDU CREU LLEOEDD** (2026-2028)
**Cynllun Prosiect-28 i wella Cei Connah erbyn 2028:**
Wedi ei arwain gan Gyngor Sir y Fflint, Cyngor Tref Cei Connah a Sefydliadau Partner.

"Mae'r ddogfen hon ar gael yn y Saesneg. Gweler y dudalen Saesneg ar ein gwefan. This document is also available in English. See English page on our website."

1600
**Mae Cynllun Creu Lleoedd Cei Connah wedi'i hysbysu gan 1600 o gyfraniadau gan bobl leol**

**Mae Creu Lleoedd yn ymwneud â llunio lleoedd o amgylch anghenion a dyheadau yr unigolion sy'n byw, gweithio ac ymweld â nhw. Mae'n broses gydweithredol sy'n uno gwybodaeth, syniadau ac adnoddau lleol i wella gofodau cyhoeddus, atgyfnerthu cysylltiadau cymunedol, a chefnogi lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol.**

Mae Cynllun Gweithredu Creu Lleoedd Cei Connah wedi'i lunio drwy ymgynghoriad helaeth gyda phreswylwyr, busnesau, grwpiau cymunedol a darparwyr gwasanaethau lleol. Mae eu mewnweledied a'u blaenoriaethau wedi cynorthwyo i lunio gweledigaeth a rennir ar gyfer dyfodol Cei Connah.

Mae'r Cynllun Gweithredu hwn (2026-2028) yn nodi fframwaith ar gyfer darpariaeth yn seiliedig ar yr 8 blaenoriaeth a nodwyd yng Nghynllun Creu Lleoedd Cei Connah. Mae'n amlinellu 28 prosiect ymarferol y mae partneriaid lleol wedi ymrwymo i'w darparu. Er bod y prosiectau'n dibynnu ar gyllid o amrywiaeth o ffynonellau nad ydynt o reidrwydd wedi'u gwarantu, maent yn adlewyrchu uchelgais cryf ac ar y cyd i greu newid cadarnhaol ar gyfer Cei Connah erbyn 2028.

## Blaenoriaeth 01
### Gwella'r briffordd (B5129) drwy Gei Connah

**Cynllun Rheoli Cyrchfan Sir y Fflint**
**I'w ddarparu gan:**
Tîm Twristiaeth Cyngor Sir y Fflint
**Pwrpas:**
Hyrwyddo Cei Connah fel cyrchfan a gwella profiad pobl o gyrraedd y dref trwy lwybrau allweddol.
**Effaith erbyn 2028:**
Synnwyr cryfach o gyrraedd, gwell gweledededd y dref, a mwy o ymwelwyr yn cefnogi'r economi leol.

## Blaenoriaeth 02
### Gwella ardal canolfan siopa'r Stryd Fawr

**Grant Gwella Eiddo Canol y Dref**
**I'w ddarparu gan:** Tîm Adfywio Cyngor Sir y Fflint
**Pwrpas:** Darparu grantiau i wella blaen siopau a llenwi unedau gwag.
**Effaith erbyn 2028:** Stryd Fawr yn fwy prysur ac yn fwy deniadol gyda llai o siopau gwag.

**Adnewyddu Adeilad Motor World**
**I'w ddarparu gan:** Tîm Adfywio Cyngor Sir y Fflint
**Pwrpas:** Darparu arian grant i ddatblygu adeilad gwag yn gaffi.
**Effaith erbyn 2028:** Mwy o ymwelwyr a phrysurdeb yng nghanol y dref.

**Ffair Nadolig**
**I'w ddarparu gan:** Cyngor Tref Cei Connah
**Pwrpas:** Cynnal digwyddiad Nadoligaidd i ddenu ymwelwyr a chefnogi masnachwyr.
**Effaith erbyn 2028:** Canol y dref yn fwy prysur a mwy o fasnach dymhorol.

## Blaenoriaeth 03
### Uno ardaloedd o Gei Connah

**Gweithgor Creu Lleoedd Cei Connah**
**I'w ddarparu gan:** Cyngor Tref Cei Connah
**Pwrpas:** Dod â phartneriaid, busnesau a chynrychiolwyr cymunedol ynghyd i gydlynu prosiectau ac alinio blaenoriaethau.
**Effaith erbyn 2028:** Gwell darpariaeth ar y cyd, partneriaethau cryfach mwy effeithiol.

**Gŵyl Flynyddol (Parc Gwepra)**
**I'w ddarparu gan:** Cyngor Tref Cei Connah
**Pwrpas:** Dod â chymunedau ynghyd trwy ddigwyddiad a rennir.
**Effaith erbyn 2028:** Hunaniaeth a chydlyniant cymunedol cryfach.

**Prosiect Deeside Through Time**
**I'w ddarparu gan:**
Tîm Twristiaeth Cyngor Sir y Fflint
**Pwrpas:** Nodi a dathlu treftadaeth a rennir rhwng cymunedau ar hyd yr Afon Dyfrdwy.
**Effaith erbyn 2028:** Mwy o ddealltwriaeth o hunaniaeth leol a chysylltiadau cryfach rhwng cymunedau.

## Blaenoriaeth 04
### Gwella Cysylltedd

**Llwybrau Mwy Diogel mewn Cymunedau**
**I'w ddarparu gan:**
Tîm Strategaeth Cludiant Cyngor Sir y Fflint
**Pwrpas:** Gwella llwybrau cerdded a beicio i ysgolion i wneud siwrneiau bob dydd yn fwy diogel ac yn haws.
**Effaith erbyn 2028:** Mwy o deithio llesol, llwybrau mwy diogel i deuluoedd a gwell cysylltiadau ar draws y dref.

**Gwelliannau Llwybr Troed Highvale**
**I'w ddarparu gan:** Cyngor Tref / Cynghorwyr Sir Cei Connah
**Pwrpas:** Uwchraddio llwybr troed allweddol trwy ardal werdd/gwlyptir i wella mynediad i bawb.
**Effaith erbyn 2028:**
Llwybrau mwy hygyrch yn cysylltu cymdogaethau ac yn annog defnydd o'r awyr agored.

### Allwedd

Cynrychiolir pob **blaenoriaeth** gan liw unigryw Efallai y bydd gan brosiectau sawl smotyn lliw sy'n dangos eu bod yn cyfrannu at fwy nag un flaenoriaeth.

**Sut i'w ddarllen:**
Mae prosiect sy'n cynnwys **un smotyn** yn cefnogi'r un flaenoriaeth honno.
Mae prosiect sy'n cynnwys **mwy nag un smotyn** yn cefnogi mwy nag un flaenoriaeth.

- Blaenoriaeth 1
- Blaenoriaeth 2
- Blaenoriaeth 3
- Blaenoriaeth 4
- Blaenoriaeth 5
- Blaenoriaeth 6
- Blaenoriaeth 7
- Blaenoriaeth 8

Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU
Funded by UK Government
Trawsnewid Trefi Transforming Towns
Llywodraeth Cymru Welsh Government
Cyngor Sir y Fflint TîmAdfywio RegenerationTeam Flintshire County Council
creu lleoedd SIR Y FFLINT
Cyngor Sir y Fflint Flintshire County Council

# Blaenoriaeth 05

## Cadw'r Dref yn Lân, Diogel a Chroesawgar

**Glanhau'r Gymuned BAC-UP**
**I'w ddarparu gan:**
Cyngor Tref Cei Connah
**Pwrpas:** Cefnogi codi sbwriel a arweinir gan wirfoddolwyr a glanhau amgylcheddol ar draws y dref.
**Effaith erbyn 2028:** Mannau cyhoeddus glanach, gwell ymddangosiad ac urddas cymunedol cryfach.

**Gwelliannau i Fannau Gwyrdd Barmouth Close a Hillside**
**I'w ddarparu gan:** Cyngor Tref / Cynghorwyr Sir Cei Connah
**Pwrpas:** Gwell mannau eistedd, llwybrau a chyflwr cyffredinol lle gwyrdd lleol.
**Effaith erbyn 2028:** Ardal mwy diogel a chroesawgar a ddefnyddir yn aml a'i pharchu gan breswylwyr lleol.

**Gwelliannau i safle Cambrian Aquatics**
**I'w ddarparu gan:** Cambrian Aquatics
**Pwrpas:** Edrych ar ddewisiadau a dyluniadau i wella'r safle allanol ac ardal barcio.
**Effaith erbyn 2028:** Cynigion clir i gefnogi lle mwy diogel, sy'n cael mwy o ddefnydd ac wedi ei gyflwyno'n dda.

**Gwelliannau Archwilio Seilwaith Gwyrdd**
**I'w ddarparu gan:** Tîm Mynediad a'r Amgylchedd Naturiol Cyngor Sir y Fflint
**Pwrpas:**
Cyflawni camau blaenoriaeth a nodwyd trwy Archwiliadau Isadeiledd Gwyrdd i wella ansawdd a gwytnwch mannau gwyrdd.
**Effaith erbyn 2028:**
Mwy o ymwybyddiaeth gymunedol o fuddion isadeiledd gwyrdd, gydag o leiaf un prosiect gwella wedi ei gyflwyno.

# Blaenoriaeth 06

## Pobl, angerdd a gweithgarwch lleol

**Cefnogaeth Canolbwynt Cymunedol**
**I'w ddarparu gan:**
Tîm Datblygu Cymunedol Cyngor Sir y Fflint
**Pwrpas:** Darparu cefnogaeth i grwpiau sy'n cynnig rhywle cynnes i bobl leol.
**Effaith erbyn 2028:** Cefnogi grwpiau i ddarparu mannau cynnes.

**Rhaglen Gwobrau Cymunedol**
**I'w ddarparu gan:** Cyngor Tref Cei Connah
**Pwrpas:** Adnabod a dathlu unigolion/grwpiau sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol i'r dref.
**Effaith erbyn 2028:** Mwy o falchder dinesig, ysbryd a chyfranogiad cymunedol cryfach.

**Clwb Ieuenctid a Chynllun Chwarae'r Haf**
**I'w ddarparu gan:** Tîm Ieuenctid a Chwarae Cyngor Sir y Fflint
**Pwrpas:** Darparu gweithgareddau diogel, cynhwysol i blant a phobl ifanc trwy gydol y flwyddyn.
**Effaith erbyn 2028:** Pobl ifanc mwy hyderus, actif sydd â chysylltiadau cymdeithasol cryfach.

**Dock Road Darts Academy**
**I'w ddarparu gan:** Cyngor Tref Cei Connah
**Pwrpas:**
Cefnogi datblygiad cyfleuster hamdden newydd.
**Effaith erbyn 2028:** Mwy o gyfranogiad mewn gweithgareddau lleol a bywyd cymunedol mwy bywiog.

**Gwasanaeth Presgripsiynu Cymdeithasol**
**I'w ddarparu gan:**
Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint (FLVC)
**Pwrpas:** Cysylltu pobl gyda chefnogaeth lles lleol.
**Effaith erbyn 2028:** Cymunedau wedi'u cysylltu'n well gyda iechyd a lles.

**Gwasanaeth Cefnogi Gwirfoddoli**
**I'w ddarparu gan:**
Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint (FLVC)
**Pwrpas:** Helpu preswylwyr i ganfod a chymryd rhan mewn cyfleoedd gwirfoddoli.
**Effaith erbyn 2028:**
Mwy o wirfoddoli, rhwydweithiau cymunedol cryfach a datblygu sgiliau.

**Rhaglen Cymunedau sy'n Gyfeillgar i Oed**
**I'w ddarparu gan:**
Tîm Heneiddio'n Dda Cyngor Sir y Fflint
**Pwrpas:**
Ymgysylltu â phreswylwyr hŷn i siapio gwasanaethau a chynlluniau.
**Effaith erbyn 2028:**
Mwy o bobl hŷn yn lleisio eu barn ar benderfyniadau ar gyfer y dref.

**Moderneiddio Cyfleuster Cambrian Aquatics**
**I'w ddarparu gan:** Cambrian Aquatics
**Pwrpas:** Datblygu cynlluniau i uwchraddio cyfleusterau ac ehangu gweithgareddau lles.
**Effaith erbyn 2028:**
Rhaglen ddiffiniedig o welliannau yn cefnogi mwy o gyfranogiad dros amser.

# Blaenoriaeth 07

## Lleoliad Dysgu a Datblygu Sgiliau

**Ysgol Goedwig yn Ysgol Uwchradd Cei Connah**
**I'w ddarparu gan:** Ysgolion Bro
**Pwrpas:** Creu man dysgu awyr agored i gefnogi sgiliau ymarferol, addysg a lles.
**Effaith erbyn 2028:** Gwell canlyniadau addysgol, sgiliau bywyd a lles i bobl ifanc.

**Rhaglen Profiad Gwaith**
**I'w ddarparu gan:** Yr Adran Gwaith a Phensiynau
**Pwrpas:** Cynyddu mynediad at leoliadau profiad gwaith gwirfoddol, yn arbennig i bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, gwaith neu hyfforddiant.
**Effaith erbyn 2028:** Mwy o bobl ifanc yn cael profiad a hyder, gan gefnogi dilyniant i gyflogaeth, addysg neu hyfforddiant.

# Blaenoriaeth 07

## A Place for Learning and Skills development

**Peilot Allgymorth Cymunedol (Gwasanaeth Symudol)**
**I'w ddarparu gan:** Yr Adran Gwaith a Phensiynau
**Pwrpas:** Profi ffyrdd mwy hyblyg o ddarparu cefnogaeth canolfan waith o fewn cymunedau, gan gynnwys allgymorth mewn lleoliadau lleol hygyrch.
**Effaith erbyn 2028:** Gwell mynediad at gefnogaeth cyflogaeth, gyda mwy o breswylwyr yn gallu ymgysylltu â gwasanaethau mewn ffyrdd sy'n addas iddyn nhw.

# Blaenoriaeth 08

## Datblygu Cei Connah sy'n Fwy Gwyrdd

**Man Dinesig Canol y Dref**
**I'w ddarparu gan:** Tîm Adfywio Cyngor Sir y Fflint
**Pwrpas:** Edrych ar ddewisiadau i wella safle'r hen swyddfeydd rhwng y llyfrgell a'r neuadd ddinesig.
**Effaith erbyn 2028:** Lle y gellir ei ddefnyddio i gefnogi adfywio ehangach ar gyfer canol y dref.

**Menter Plannu Coed gydag Ysgolion**
**I'w ddarparu gan:** Cyngor Tref Cei Connah
**Pwrpas:** Plannu coed gydag ysgolion i wella'r amgylchedd ac ymgysylltu â phobl ifanc.
**Effaith erbyn 2028:** Cymdogaethau mwy gwyrdd a mwy o ymwybyddiaeth amgylcheddol ymysg preswylwyr.

**Cyflawni Plannu Coed Trefol**
**I'w ddarparu gan:** Tîm Mynediad a'r Amgylchedd Naturiol Cyngor Sir y Fflint
**Pwrpas:** Cyflawni cynlluniau plannu coed trefol i gynyddu nifer y coed, cefnogi bioamrywiaeth a gwella'r amgylchedd lleol.
**Effaith erbyn 2028:** Mwy o ymwybyddiaeth gymunedol o fanteision coed, gydag o leiaf un cynllun plannu coed wedi ei gyflwyno.

**Creu a Gwella Cynefin Peillio**
**I'w ddarparu gan:** Tîm Mynediad a'r Amgylchedd Naturiol Cyngor Sir y Fflint
**Pwrpas:** Creu neu wella cynefinoedd i beillwyr trwy fesurau megis plannu blodau gwyllt, llai o dorri glaswellt a rheolaeth sy'n ystyriol o natur.
**Effaith erbyn 2028:** Gwell bioamrywiaeth, mwy o ymwybyddiaeth o werth mannau naturiol ac o leiaf un cynllun gwella cynefin wedi ei gyflwyno.

